OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3157 (Cy.293)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*17 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym - -	*9 Ionawr 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 18(1)(c), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac wedi parchu yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1. Ar gyfer y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw fydd Rheoliadau Cafa-cafa mewn Bwyd (Cymru) 2002;

(b) deuant i rym ar 9 Ionawr2003;

(c) byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") yw—

mewn perthynas ag unrhyw ardal iechyd porthladd a gyfansoddywd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984(**4**)), awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a gyfansoddwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honNo.

ystyr "Cafa-cafa" ("*Kava-kava*") yw planhigyn, neu unrhyw ran ohono neu ddarn o blanhigyn, sy'n perthyn i'r rhywogaeth Piper methysticum;

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fel y caiff ei ddarllen gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1; sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith fwyd, yn sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion sy'n ywmneud â diogelwch bwyd.

(**4**) 1984 p.22

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

Gwaharddiad ar werthu etc. bwyd sydd wedi'i wneud o Cafa-cafa neu sy'n ei gynnwys

3. Ni chaiff urnhyw berson—

(a) werthu, neu

(b) feddu ar gyfer gwerthu neu gynnig, amlygu neu hysbysebu ar gyfer gwerthu, neu

(c) fewnforio i Gymru o'r tu allan I'r Deyrnas Unedig neu gludo i Gymru o unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig unrhyw fwyd sy'n cynnwys Cafa-cafa.

Cosb a gorfodi

4.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n tramgwyddo neu sy'n methu â chydymffurfio â rheoliad 3 yn euog o dramgwydd a bydd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

(3) Rhaid i bob awdurdod iechyd porthladd orfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990

5.—(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni yn cael eu dehnogli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc);

(b) adran 3 (rhagdybiaeth fod bwyd wedi'i fwriadu i gael ei fwyta gan bobl);

(c) adran 20 (tramgwyddau o ganlyniad i fai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyiniad o ddiwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf;

(d) adran 22 (amddiffyniad o gyhoeddi yng nghwrs busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33(1) (rhwystro etc swyddogion);

(f) adran 33(2), gyda'r addasiad bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection 1(b) above" yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybywllir yn adran 33(1)(b) fel y caiff ei chymhwyso gan is-baragraff (e);

(ff) adran 35(1) (cosbi am dramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y caiff ei chymhwyso gan is-baragraff (e);

(g) adran 35(2) a (3), i'r graddau y maent yn ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y caiff ei chymhwyso gan is-baragraff (f);

(ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(h) adran 58(1) (sy'n ymwneud â dyfroedd tiriogaethol).

(2) Bydd adran 8(3) o'r Ddeddf (sy'n gwneud rhagdybiaethau yn achos sypiau etc. o fwyd) yn gymwys i fwyd y mae'n dramgwydd ei werthu o dan y Rheoliadau hyn fel y mae'n gymwys i fwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

(3) Bydd adran 9 o'r Ddeddf (archwilio ac atafaelu bwyd dan amheuaeth) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai bwyd y mae'n dramgwydd ei werthu oddi tanynt yn fwyd a fethodd a chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.